**Dyddiedig:** **[NODWCH Y DYDDIAD]** 2025

(1) Dŵr Cymru Cyfyngedig

(2) **[NODWCH ENW'R ADWERTHWR TRYDYDD PARTI]**

---

**Cytundeb i ddarparu Gwasanaethau Darllen Mesuryddion**

---

# Cynnwys


| Cymal | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU | 2 |
| 2 | GWASANAETHAU | 5 |
| 3 | RHWYMEDIGAETHAU’R CYFLENWR | 5 |
| 4 | CYNRYCHIOLWYR Y CONTRACT | 6 |
| 5 | FFIOEDD A THREULIAU’R CYFLENWR | 6 |
| 6 | GWYBODAETH GYFRINACHOL A CHYHOEDDUSRWYDD | 7 |
| 7 | HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL | 8 |
| 8 | DATA CWSMERIAID A DEUNYDDIAU CWSMERIAID | 8 |
| 9 | STAFF | 8 |
| 10 | FORCE MAJEURE | 9 |
| 11 | CYFNOD A THERFYNU | 9 |
| 12 | RHEOLI NEWID | 11 |
| 12.3 | DATA | 11 |
| 12.3 | DATA | 12 |
| 14 | ATEBOLRWYDD | 12 |
| 15 | DEDDF LLWGRWOBRWYO 2010 | 13 |
| 16 | ATAL CAETHWASIAETH | 13 |
| 17 | TRETH | 13 |
| 18 | HYSBYSIADAU | 13 |
| 19 | DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI) 1999 | 14 |
| 20 | ASEINIO AC IS-GONTRACTIO | 14 |
| 21 | Y CYTUNDEB CYFLAWN | 14 |
| 22 | ANNILYSU | 14 |
| 23 | ILDIO | 15 |
| 24 | AMRYWIO | 15 |
| 25 | GOROESI | 15 |
| 26 | Y GYFRAITH LYWODRAETHOL | 15 |
| **ATODLENNI** | | |
| 1 | Y Gwasanaethau a’r Lefelau Gwasanaeth | 16 |
| 2 | Ffioedd | 17 |
| 3 | Rheoli Newid | 18 |

Gwneir y **CYTUNDEB HWN** ar **[NODWCH Y DYDDIAD]**

**Rhwng**

(1) Dŵr Cymru Cyfyngedig, cwmni corfforedig yng Nghymru a Lloegr (Rhif 2366777) y mae ei swyddfa gofrestredig yn Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LT (**"y Cyflenwr"**); a

(2) [ ] cwmni corfforedig yng Nghymru a Lloegr (Rhif [ ]) y mae ei swyddfa gofrestredig yn [ ] (**"y Cwsmer"**).

**Lle**

(A) Mae Dŵr Cymru Cyfyngedig ("**DCC**") wedi ei Benodi o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth.

(B) Ers 1 Ebrill 2017, mae'r farchnad i ddarparu gwasanaethau adwerthu ar gyfer cwsmeriaid busnes wedi bod yn agored i gystadleuaeth yn Lloegr. Mae cwmpas y farchnad adwerthu gystadleuol yr un fath ar gyfer DCC a chwmnïau eraill sy'n gweithredu'n gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru (h.y. dim ond cwsmeriaid busnes sy'n defnyddio 50 M/L neu ragor o ddŵr y flwyddyn ar un safle fydd yn gallu dewis pwy sy'n darparu eu gwasanaethau dŵr (e.e nid gwasanaethau carthffosiaeth neu wasanaethau elifion masnachol)).

(C) Mae gofyn i DCC, yn yr un modd â'r holl ymgymerwyr dŵr eraill sydd mewn grym, sicrhau bod pob Adwerthwr, y gweithrediadau adwerthu yn DCC sy'n gyfrifol am ofalu am gwsmeriaid busnes â Safleoedd Cymwys, ac Adwerthwyr trydydd parti, yn cael eu trin mewn ffordd sy'n deg ac yn gyfartal, ac yn benodol, eu bod yn derbyn lefel gyfatebol o wasanaeth.

(D) Mae Penodiad DCC yn mynnu bod gan y DCC drefniadau hyd braich mewn grym i ddangos bod DCC yn cyflawni ei weithgareddau Cyfanwerthu ac Adwerthu mewn perthynas â'i gwsmeriaid busnes ar gyfer cystadleuaeth fel petaent yn cael eu cyflawni gan endidau cyfreithiol ar wahân.

(E) Mae'r Cyflenwr wedi cychwyn cytundeb i ddarparu gwasanaethau darllen mesuryddion ar gyfer Tîm Adwerthu Masnachol DCC, ac mae'n fodlon cychwyn cytundeb dan delerau cyfatebol i gyflenwi gwasanaethau o'r fath ar gyfer y Cwsmer.

**DARPARIAETHAU GWEITHREDOL**

1. **DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU**

1.1 **Y termau a ddiffinnir**

Yn y Cytundeb hwn, mae i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **"AEE"** | yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig os yw'n gadael yr Undeb Ewropeaidd |
| **"Archeb Brynu"** | yr archeb brynu y mae'r Cwsmer yn ei gyflwyno mewn perthynas â'r Gwasanaethau perthnasol |
| **"Blwch Post y Cwsmer"** | yw [**I'W NODI**] |
| **"Blwch Post y Cyflenwr"** | yw [**I'W NODI**] |
| **"Blwyddyn"** | y cyfnod o 12 mis o ddyddiad y Cytundeb hwn a phob cyfnod olynol o 12 mis sy'n dilyn wedyn yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, neu unrhyw gyfnod byrrach sy'n cychwyn ar ddiwrnod sy'n dilyn yn syth |

| | |
|---|---|
| | ar ôl diwedd y Flwyddyn ac yn dod i ben adeg terfynu'r Cytundeb hwn |
| **"Cwsmer Perthnasol"** | yw cwsmer â Safle Cymwys |
| **"Cyfreithiau Atal Llwgrwobrwyo"** | unrhyw a phob statud, offeryn statudol, is-ddeddf, cyfraith achos, gorchymyn, cyfarwyddeb, dyfarniad a chyfraith perthnasol sy'n ymwneud ag atal llwgrwobrwyo a/neu atal llygredigaeth, gan gynnwys y Ddeddf Llwgrwobrwyo |
| **"Data Personol a Rennir"** | y data personol i'w rannu rhwng y partïon o dan gymal 1.1 o'r cytundeb hwn. Bydd Data Personol a Rennir yn gyfyngedig i'r categorïau canlynol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r categorïau canlynol o wrthrychau data:<br>a) [math o ddata personol]; a<br><br>b) [math o ddata personol] |
| **"Datgelwr Data"** | parti sy'n datgelu Data Personol a Rennir i'r parti arall |
| **"Deddf Caethwasiaeth Fodern"** | Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 |
| **"Deddf Llwgrwobrwyo"** | Deddf Llwgrwobrwyo 2010 |
| **"Deddfwriaeth Diogelu Data"** | y DPA, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Rheoliadau Telathrebu (Arferion Busnes Cyfreithlon) (Rhyng-gipio Cysylltiadau) 2000 (OS 200/2699), Cyfarwyddeb Diogelu Data Cyfathrebu Electronig 2002/58/EC, y gyfraith sy'n gweithredu Cyfarwyddeb Diogelwch Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2016/1148, gan gynnwys Cyfarwyddeb 95/46/EC yr UE, y GDPR, a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb yr EC) 2003 (fel y maent yn cael eu diwygio gan y Rheoliad arfaethedig ar Breifatrwydd a Chyfathrebu Electronig), penderfyniadau, codau ymarfer a chanllawiau sefydliad medrus sy'n goruchwylio neu'n rheoleiddio diogelu data, Prosesu Data Personol a phreifatrwydd dinasyddion yr UE a/neu'r DU, y cyfan fel y gellir eu diwygio neu eu disodli o bryd i'w gilydd. Bydd i'r ymadroddion "rheolwr", "proseswr", "gwrthrych data", "data personol", "torri data personol", "prosesu" a "mesurau technegol a sefydliadol priodol" yr ystyron a bennir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data sydd mewn grym ar y pryd; |
| **"Derbynwyr a Ganiateir"** | pawb sy'n barti i'r Cytundeb hwn, cyflogeion pob parti, unrhyw drydydd parti a ddefnyddir i gyflawni rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, a **[YCHWANEGWCH UNRHYW DDERBYNWYR ERAILL A GANIATEIR]** |
| **"Deunyddiau Cefndir"** | yw'r eitemau hynny a ddarperir ar gyfer y Cwsmer o dan y Cytundeb hwn, a grëwyd gan y Cyflenwr cyn, neu yn annibynnol ar ddarparu'r Gwasanaethau |

| | |
|---|---|
| **"Deunyddiau Cwsmeriaid"** | yr holl wybodaeth, nwyddau, deunyddiau, rhestrau cwsmeriaid, data (ac eithrio Data'r Cwsmer) ac offer sy'n eiddo i, dan drwydded i, a/neu a ddatblygwyd gan y Cwsmer, a ddarperir neu a ryddheir i'r Cyflenwr gan y Cwsmer yn unol â'r Cytundeb hwn er mwyn caniatáu i'r Cyflenwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn |
| **"Dibenion Cymeradwy"** | **[NODWCH AT BA DDIBENION Y BWRIEDIR CADW'R DATA PERSONOL]** |
| **"Diwrnod Busnes"** | diwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc neu ŵyl gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr |
| **"DPA"** | Deddf Diogelu Data 2018 fel y mae'n cael ei diwygio neu ei disodli o bryd i'w gilydd. |
| **"Dyddiad Dechrau"** | [**I'W NODI**] |
| **"Force Majeure"** | unrhyw achos sy'n atal y naill barti neu'r llall rhag cyflawni unrhyw un, neu bob un o'i rwymedigaethau sy'n deillio o, neu y gellir ei briodoli i weithredoedd, digwyddiadau, hepgoriadau neu ddamweiniau y tu hwnt i reolaeth resymol y parti a ataliwyd, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, rhyfel, terfysg, anhrefn sifil, cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfraith neu orchymyn y llywodraeth, rheol, rheoliad neu gyfarwyddeb, heblaw na fydd streic neu gloi staff y parti ei hun allan yn rhoi'r hawl i honni bod hynny'n ddigwyddiad o *force majeure* |
| **"GDPR"** | Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2016/679) yr Undeb Ewropeaidd sydd mewn grym o Ddyddiad Dechrau'r GDPR ac a all gael ei fabwysiadu a'i ddiwygio yn y Deyrnas Unedig yn dilyn ei ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd. |
| **"Gwasanaethau"** | y gwasanaethau neu'r prosiect a ddisgrifir yn **Atodlen** 1 i'w darparu gan y Cyflenwr o dan y Cytundeb hwn |
| **"Gweithdrefn Rheoli Newid"** | y weithdrefn rheoli newid a bennwyd yn **Atodlen 3** |
| **"Gorchymyn Newid"** | gorchymyn newid ar y ffurf a bennwyd yn **Atodlen 1** |
| **"Hawliau Eiddo Deallusol"** | hawliadau mewn patentau (gan gynnwys modelau defnydd), dyluniadau (boed modd eu cofrestru ai peidio), topograffi, sglodion, hawlfraint, hawliau moesol, hawliau cronfeydd data, masnachfreintiau, enwau masnachu a busnes, yr hawliau i erlyn am ffugio, hawliau o natur hawliau cystadleuaeth annheg, cyfrinachau masnachu, cyfrinachedd a hawliau perchnogaeth eraill gan gynnwys hawliau i wybod sut, a gwybodaeth dechnegol arall a cheisiadau i gofrestru unrhyw hawliau blaenoriaeth a'r holl hawliau o natur flaenoriaeth yn unrhyw le yn y byd |
| **"Lefelau Gwasanaeth"** | y lefelau gwasanaeth ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau a bennir yn **Atodlen 1** |

| | |
|---|---|
| **"Personél"** | unrhyw weithiwr, asiant neu is-gontractwr i'r Cyflenwr |
| **"Safle Cymwys"** | yw safle cwsmer sy'n defnyddio 50Ml neu ragor o ddŵr y flwyddyn |
| **"TAW"** | Treth ar Werth |

1.2 Ni fydd y mynegai a'r penawdau i gymalau ac Atodlenni'r Cytundeb hwn yn effeithio ar ei adeiladwaith.

1.3 Lle bo'r cyd-destun yn gofyn neu'n caniatáu, bydd y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd, a'r diryw a'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb hefyd.

1.4 Mae unrhyw gyfeiriad at ysgrifennu'n cynnwys cyfeiriad at unrhyw gyfathrebu a wneir trwy e-bost electronig.

1.5 Mae unrhyw gyfeiriad at gymal neu Atodlen yn y Cytundeb hwn yn cyfeirio at gymal neu Atodlen i'r Cytundeb hwn, ac mae cyfeiriadau at baragraffau at baragraffau yn yr Atodlen lle mae'r paragraff yn ymddangos.

1.6 Mae'r ymadrodd person yn golygu unrhyw unigolyn, busnes, cwmni, cymdeithas gorfforedig, partneriaeth, llywodraeth, gwladwriaeth neu asiantaeth o'r wladwriaeth, neu gyd-fenter.

1.7 Caiff unrhyw gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol ei ddehongli fel cyfeiriad at y statud neu'r ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio, cadarnhau, addasu, ymestyn, ail-ddeddfu neu ddisodli.

1.8 Mae cyfeiriadau yn y Cytundeb hwn at Wrthrychau Data, Data Personol, Prosesau, Proseswyd, Prosesu, Rheolwr Data neu Broseswr Data, lle bo priflythrennau, yn rhannu ystyr y Ddeddf Diogelu Data a chânt eu dehongli yn unol â hynny.

## 2. GWASANAETHAU

2.1 Trwy hyn, mae'r Cwsmer yn cysylltu'r Cyflenwr i ddarparu'r Gwasanaethau ar gyfer y Cwsmer, a thrwy hyn, mae'r Cyflenwr yn cytuno i ddarparu'r Gwasanaethau yn unol â'r amodau a'r telerau a bennir yn y Cytundeb hwn.

2.2 Oni bai bod y Cwsmer yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig, bydd darparu'r Gwasanaethau gan y Cyflenwr i'r Cwsmer yn amodol ar yr amodau a'r telerau a gynhwysir yn y Cytundeb hwn. Mae unrhyw amodau a thelerau heblaw'r rhai a gynhwysir yn y Cytundeb hwn (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, unrhyw delerau a bennir mewn telerau amgen a gyflwynir i'r Cwsmer eu llofnodi) wedi eu hepgor yn benodol.

## 3. RHWYMEDIGAETHAU'R CYFLENWR

3.1 Bydd y Cyflenwr yn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Lefelau Gwasanaeth.

3.2 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu bod gan y Personél y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r Gwasanaethau i'r safon sy'n ofynnol gan y Cwsmer. Mae'r Cyflenwr yn cytuno i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cwsmer cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os na all y Cyflenwr gydymffurfio ag unrhyw un o delerau'r Cytundeb hwn.

3.3 Mae’r Cyflenwr yn gwarantu y caiff y Gwasanaethau eu cyflawni â gofal rhesymol ac mewn ffordd broffesiynol hyd eithaf gallu’r Cyflenwr fel y gellid ei ddisgwyl gan ddarparydd arbenigol gwasanaethau tebyg.

3.4 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod y Personél:

3.4.1 yn cadw cofnod cyfoes o’r amser sy’n cael ei dreulio ar gyflawni’r Gwasanaethau; ac

3.4.2 os oes angen er mwyn darparu’r Gwasanaethau, yn gweithio ac yn cydweithio â’r Cwsmer a’i swyddogion, cyflogeion a gweithwyr eraill (gan gynnwys contractwyr eraill).

3.5 Bydd y Cyflenwr yn sefydlu ac yn cynnal mesurau a gweithdrefnau diogelwch priodol er mwyn darparu ar gyfer gofal diogel dros Ddata Cwsmeriaid a Deunyddiau Cwsmeriaid ac er mwyn atal mynediad diawdurdod atynt neu ddefnydd ohonynt yn unol â’r darpariaethau a bennir yng **nghymal** 8.

3.6 Mae’r Cyflenwr yn gwarantu y bydd yn cynnal gweithdrefnau digonol ar gyfer hapddigwyddiadau neu adfer yn sgil trychineb fel y gall barhau i ddarparu’r Gwasanaethau â chyn lleied o oedi â phosibl os oes rhywbeth yn tarfu ar ddarparu’r Gwasanaethau gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, unrhyw amgylchiadau y cyfeirir atynt yng **nghymal 10**. Bydd gan y Cwsmer yr hawl, ar gais rhesymol, i weld copi o unrhyw weithdrefnau o ran parhad sydd gan y Cwsmer mewn grym. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y **cymal 3.6** yma’n amodol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yng **nghymal 10**.

4. **CYNRYCHIOLWYR Y CONTRACT**

4.1 Ar y Dyddiad Dechrau, bydd y ddau barti yn pennu cynrychiolydd fydd â’r awdurdod llwyr i gymryd yr holl benderfyniadau sy’n angenrheidiol am y Cytundeb hwn ac i gyflawni ei rwymedigaethau odano (Cynrychiolydd y Contract).

4.2 Gall y ddau barti gytuno bod eu Cynrychiolwyr o ran y Contract yn cyfarfod yn rheolaidd tra bod y Cytundeb hwn mewn grym er mwyn trafod a chofnodi cynnydd, a pherfformiad pob parti o dan y Cytundeb hwn.

5. **FFIOEDD A THREULIAU’R CYFLENWR**

5.1 Y ffioedd ar gyfer Gwasanaethau’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 fydd y ffioedd a bennir yn **Atodlen** 2. Nid ydynt yn cynnwys TAW, a gaiff ei ychwanegu at y swm o dan sylw. Bydd y Cyflenwr yn cynnwys manylion y gyfradd TAW sy’n berthnasol ar bob anfoneb, a rhif TAW unigryw'r Cyflenwr. Ni fydd hawl gan y Cyflenwr i anfonebu’r Cwsmer am unrhyw dreuliau (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, costau teithio) oni bai bod y Cwsmer wedi cytuno i hynny’n benodol cyn tynnu treuliau o’r fath. Y taliadau hyn fydd y tâl cyfan ar gyfer y Gwasanaethau.

5.2 Cyfrifir ffioedd yn flynyddol a chaiff y Cwsmer ei hysbysu am y ffioedd ar gyfer y Flwyddyn sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2024 a phob Blwyddyn sy’n dilyn hynny cyn diwedd y cyfnod cyfredol o 12 mis, a byddant gyfwerth â’r ffioedd y mae Tîm Adwerthu Masnachol DCC yn eu talu i’r Cyflenwr am yr un gwasanaethau.

5.3 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod unrhyw anfoneb sy’n ymwneud â’r Gwasanaethau yn cael ei chyfeirio at Taliadau Canolog, Blwch SB 3106, Caerdydd CF30 0BH a’u bod yn cynnwys rhif yr Archeb Brynu o dan sylw. Yn ogystal, bydd y Cyflenwr yn nodi enw llawn a manylion cofrestru’r Cyflenwr ar bob anfoneb ac yn nodi manylion clir am y Gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y cyfnod o dan sylw. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff y taliad ei wneud oni bai bod yr anfoneb yn dyfynnu Rhif Archeb Brynu ddilys.

5.4 Bydd y Cwsmer yn talu’r symiau diamheuol y dangosir eu bod yn ddyledus mewn arian wedi ei glirio i’r banc y mae’r Cyflenwr yn ei enwebu erbyn 28ain ddiwrnod y mis yn dilyn mis cyhoeddi’r anfoneb (“**y Cyfnod Talu**”) lle nad oes unrhyw ddadl dros yr anfoneb. Er mwyn hwyluso’r taliad, bydd anfoneb y Cyflenwr yn darparu manylion ei gyfrif banc (neu

gyfrif banc y cynrychiolwyr a enwebir ganddo efallai mewn perthynas â chwmnïau ffactora dyledion) ynghyd â chyfarwyddiadau trosglwyddo electronig. Lle bo'r Cwsmer yn hysbysu'r Cyflenwr am unrhyw wall yn yr anfoneb, caiff y Cyfnod Talu ei ohirio a bydd y Cyflenwr yn ail-anfon yr anfoneb fel ei bod yn gywir, a bydd y Cyfnod Talu yn ailgychwyn ar y dyddiad pan ddaw'r anfoneb newydd i law'r Cwsmer.

5.5 Os bydd y naill barti neu'r llall yn methu â thalu ar y dyddiad dyledus, bydd unrhyw swm diamheuol sy'n daladwy i'r llall o dan y Cytundeb hwn, heb gyfaddawdu **cymal 11**, yn dwyn llog o'r dyddiad dyledus hyd nes y gwneir y taliad llawn, cyn ac ar ôl unrhyw ddyfarniad, ar sail 2 y cant y flwyddyn dros gyfradd sylfaenol y National Westminster Bank o bryd i'w gilydd. Mae'r ddau barti'n cytuno bod y **cymal 5.5** yn adferiad sylweddol am dalu unrhyw swm sy'n daladwy o dan y Cytundeb hwn yn hwyr yn gyson ag adran 8(2) o'r Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998.

5.6 Bydd y Cyflenwr yn cadw ac yn cynnal yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau o dan y Cytundeb, ac yn parhau i gadw dogfennaeth o'r fath am gyfnod o chwe (6) blynedd ar ôl i'r Cytundeb yma gael ei derfynu neu ddod i ben. Gyda chyfnod rhesymol o rybudd, bydd y Cyflenwr yn caniatáu i gyflogeion ac asiantau'r Cwsmer (neu unrhyw gynrychiolydd a bennir ganddo) archwilio a/neu atgynhyrchu unrhyw ddogfennaeth o'r fath (creu copïau ohoni) er mwyn monitro a dilysu cywirdeb y Ffioedd, effeithiolrwydd arferion busnes y Cyflenwr, a chydymffurfiaeth y Cyflenwr â thelerau'r Cytundeb hwn.

5.7 Adeg terfynu'r Cytundeb hwn, rhaid i'r Cyflenwr ddychwelyd Deunyddiau'r Cwsmer i'r Cwsmer o fewn cyfnod rhesymol o amser.

## 6. GWYBODAETH GYFRINACHOL A CHYHOEDDUSRWYDD

6.1 Mae pob parti'n cydnabod, yng nghwrs y Cytundeb hwn, y gall gyrchu gwybodaeth o natur gyfrinachol neu berchnogol (gan gynnwys gwybodaeth a rannwyd ar lafar) mewn perthynas â'r busnes neu'r parti arall (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, telerau'r Cytundeb hwn) (Gwybodaeth Gyfrinachol) ac mae pob parti yn ymgymryd bob amser:

6.1.1 i ddefnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol yn unswydd at ddibenion cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn ac i beidio â defnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol er eu budd neu fantais eu hunain nac er budd unrhyw berson heblaw'r parti arall; ac

6.1.2 i gadw'r Wybodaeth Gyfrinachol yn gyfrinachol ac yn benodol, i beidio â datgelu, cyhoeddi na rhannu'r Wybodaeth Gyfrinachol, yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol, ag unrhyw berson heblaw yn gyfrinachol ac ar y sail angen gwybod, i'w gyflogeion, swyddogion neu asiantau sy'n destun rhwymedigaethau cyfrinachedd o dan eu contractau cyflogaeth neu gysylltiad (fel ag y bo) â'r parti perthnasol yn hynny o beth; ac

6.1.3 i ddefnyddio pob ymdrech i orfodi'r goblygiadau cyfrinachedd sy'n ddyledus i'w gyflogeion, swyddogion ac asiantau.

6.2 Ni fydd yr ymgymeriadau uchod o ran cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth lle gall y parti sy'n ei datgelu ei sefydlu er boddhad rhesymol y parti arall:

6.2.1 ei bod, ar y dyddiad datgelu neu'n ddiweddarach mynd i'r bau gyhoeddus trwy ddull arall yn hytrach nac o ganlyniad i unrhyw ddatgeliad diawdurdod, gweithred neu hepgoriad gan y parti sy'n ei datgelu a/neu ei gyflogeion, swyddogion neu asiantau; neu

6.2.2 ym meddiant cyfreithlon a phriodol y parti sy'n ei datgelu adeg ei datgelu neu yn cael ei chaffael gan y parti sy'n ei datgelu (yn unol â thystiolaeth o gofnodion ysgrifenedig y parti sy'n datgelu); neu

6.2.3 yn gofyn am gael ei ddatgelu dan awdurdod y llywodraeth, y rheoleiddiwr neu yn ôl y gyfraith.

7. **HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL**

7.1 Bydd pob hawl, teitl a buddiant (gan gynnwys yr holl Hawliau Eiddo Deallusol) yn y Deunyddiau Cefndir yn eiddo i'r Cyflenwr yn unig, ac ni fydd hawl gan y Cwsmer i ddefnyddio'r Deunyddiau Cefndir yn eu cyfanrwydd neu unrhyw ran ohonynt ac eithrio fel y mae'r Cytundeb hwn yn ei ganiatáu.

7.2 Trwy hyn, mae'r Cyflenwr yn caniatáu trwydded anghyfyngol, byd-eang, heb freindal, dirymiadwy, annhrosglwyddiadwy i'r Cwsmer ddefnyddio'r Deunyddiau Cefndir mewn modd y gall y Cwsmer fynnu arno i ddefnyddio unrhyw Wasanaethau.

7.3 Mae'r Cwsmer yn caniatáu trwydded heb freindal, angyfyngol, ac annhrosglwyddiadwy i'r Cwsmer ddefnyddio unrhyw un o'i Hawliau Eiddo Deallusol sydd eu hangen gan y Cyflenwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.

8. **DATA CWSMERIAID A DEUNYDDIAU CWSMERIAID**

8.1 Bydd y Cyflenwr yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod Data'r Cwsmer a Deunyddiau'r Cwsmer yn cael eu hamddiffyn yn unol ag arferion da'r diwydiant, ac yn benodol, bydd y Cyflenwr:

8.1.1 yn ymatal rhag defnyddio'r data neu'r wybodaeth nac atgynhyrchu'r data neu'r wybodaeth yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol ar unrhyw ffurf heblaw at ddibenion y Cytundeb hwn;

8.1.2 yn ymatal rhag datgelu Data'r Cwsmer neu Ddeunyddiau'r Cwsmer i unrhyw drydydd parti neu bobl sydd heb awdurdod y Cwsmer i'w dderbyn, ac eithrio ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig y Cwsmer ymlaen llaw;

8.1.3 yn cymryd pob cam posibl i gynnal uniondeb holl Ddata'r Cwsmer a Deunyddiau'r Cwsmer, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, trwy gymryd mesurau ffisegol, rhesymegol ac o ran diogelwch systemau sy'n rhesymol i atal colled neu ddefnydd neu fynediad diawdurdod at Ddata'r Cwsmer neu ddeunyddiau'r Cwsmer; ac

8.1.4 yn ymatal rhag oedi, camddefnyddio, gwanhau neu gasglu, nac ymyrryd mewn unrhyw ffordd arall ag unrhyw ran o Ddata'r Cwsmer neu Ddeunyddiau'r Cwsmer, sydd, ar yr adeg berthnasol, ym meddiant neu dan reolaeth y Cyflenwr ac eithrio ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig y Cwsmer ymlaen llaw a/neu dim ond i'r fath raddau ag y bo angen gwneud hynny er mwyn caniatáu i'r cyflenwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.

8.2 Os caiff unrhyw Ddata'r Cwsmer ei golli neu ei lygru am fod y Cyflenwr wedi torri amodau'r Cytundeb hwn, trwy esgeulustra neu ddefnydd diawdurdod neu fynediad at Ddata'r Cwsmer, pan fydd y Cyflenwr yn dod yn ymwybodol o hynny, bydd yn hysbysu'r Cwsmer yn ysgrifenedig am unrhyw golled neu lygru o'r fath.

8.3 Rhaid i'r Cyflenwr beidio â defnyddio Deunyddiau'r Cwsmer a/neu Ddata'r Cwsmer at unrhyw ddiben heblaw at y dibenion y cawsant eu darparu ar gyfer y Cyflenwr gan y Cwsmer a/neu dim ond i'r fath raddau ag y bo angen er mwyn caniatáu i'r Cyflenwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb.

9. **STAFF**

9.1 Wrth ddarparu'r Gwasanaethau, bydd y Cyflenwr:

9.1.1 yn darparu digon o Bersonél sydd â'r cymwysterau priodol, digon o brofiad, a hyfforddiant ac sy'n gallu darparu'r Gwasanaethau bob amser;

9.1.2 yn sicrhau bod yna nifer ddigonol o Bersonél i ddarparu'r Gwasanaethau'n briodol; ac

9.1.3 yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol sy'n berthnasol i gyflogaeth y Personél.

9.2 Mae'r ddau barti yn cytuno ac yn deall, oherwydd natur y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, na fydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Amddiffyn Cyflogaeth) 2006 yn berthnasol i ddechrau neu derfynu'r Gwasanaethau, ac felly o ganlyniad, ni fydd unrhyw berson ar ddechrau'r Cytundeb yn trosglwyddo eu cyflogaeth o'r Cwsmer neu'r trydydd parti i'r Cyflenwr, nac adeg terfynu yn trosglwyddo eu cyflogaeth o'r Cyflenwr i'r Cwsmer neu i unrhyw drydydd parti. Bydd y Cwsmer yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am gyflogaeth unrhyw berson a oedd ynghlwm wrth y Gwasanaethau neu wasanaethau tebyg i'r Gwasanaethau cyn y Dyddiad Dechrau, a bydd y Cyflenwr yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am gyflogaeth unrhyw berson a fu ynghlwm wrth y Gwasanaethau neu wasanaethau tebyg i'r Gwasanaethau yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn.

10. **FORCE MAJEURE**

10.1 Ni fydd y naill barti na'r llall i'r Cytundeb hwn yn torri amodau'r Cytundeb hwn, nac yn atebol fel arall i'r parti arall mewn unrhyw ffordd o gwbl am unrhyw fethiant neu oedi wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn oherwydd Force Majeure.

10.2 Os yw Force Majeure yn effeithio ar berfformiad parti o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn, yna:

10.2.1 bydd yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall, gan fanylu ar natur a graddfa'r Force Majeure, yn syth ar ôl dod yn ymwybodol o'r Force Majeure, a bydd yn defnyddio pob ymdrech i liniaru pa mor ddifrifol yw'r Force Majeure;

10.2.2 ystyrir bod dyddiad cyflawni unrhyw rwymedigaeth o'r fath, ond dim ond am gyfnod sy'n gyfartal â'r oedi a achosir gan ddigwyddiad o'r fath; ac

10.2.3 ni fydd ganddo'r hawl i daliad gan y parti arall mewn perthynas â chostau a threuliau ychwanegol a dynnir yn rhinwedd y Force Majeure.

10.3 Os yw'r Force Majeure o dan sylw yn parhau am dros dri mis, gall y parti nad yw'n destun Force Majeure gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r llall i derfynu'r Cytundeb hwn. Rhaid i'r hysbysiad terfynu bennu'r dyddiad terfynu, a rhaid i hynny fod dim llai na 15 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad, ac ar ôl cyflwyno hysbysiad o'r fath yn ddilys, bydd y Cytundeb hwn yn terfynu ar y dyddiad terfynu hwnnw.

10.4 Yn achos y Cyflenwr, bydd darpariaethau **cymal** Error! Reference source not found. yn parhau i fod mewn grym os ymarferir darpariaethau'r cymal yma, **cymal 10**.

11. **CYFNOD A THERFYNU**

11.1 Daw'r Cytundeb hwn i rym ar y Dyddiad Dechrau ac, yn amodol ar y darpariaethau canlynol o'r cymal hwn, bydd yn parhau am gyfnod o 3 blynedd ac yn parhau wedyn oni bai neu nes ei fod yn cael ei derfynu'n gynt wrth i'r naill barti neu'r llall roi o leiaf **3 mis** o rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r llall.

11.2 Trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r llall gall y naill barti a'r llall, derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith os :-

11.2.1 yw'r parti arall yn torri unrhyw un o delerau'r Cytundeb hwn yn faterol a/neu yn barhaol ac, yn achos tor-amod y gellir ei ddatrys, nad oes cynllun i ddatrys y tor-amod yn dod o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (14 diwrnod) ar ôl i hysbysiad sy'n disgrifio'r tor-amod ddod i law. Os nad yw'r cynllun yn dderbyniol i'r parti nad yw'n diffygio, neu os yw'r parti sy'n diffygio yn methu â chydymffurfio â'r cynllun, gall y parti nad yw'n diffygio derfynu'r Cytundeb ar unwaith heb roi rhybudd pellach; neu

11.2.2 yw'r parti arall, fel cwmni, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu bartneriaeth wedi;

11.2.2.1 cael gorchymyn dirwyn i ben yn ei erbyn;

11.2.2.2 wedi cael deiseb i'w ddirwyn i ben na chafodd ei dynnu nôl neu ei ddiddymu cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei chyflwyno;

11.2.2.3 wedi cael datodwr dros dro wedi ei benodi ar ei gyfer;

11.2.2.4 wedi cynnig neu wedi cymeradwyo penderfyniad i'w ddirwyn i ben (heblaw at ddibenion uno neu ailadeiladu solfent);

11.2.2.5 wedi cael cais gweinyddu wedi ei ffeilio mewn perthynas ag ef yn unol â pharagraff 12 o Atodlen B1 i Ddeddf Ansolfedd 1986 ("**Atodlen B1**"),

11.2.2.6 wedi cael hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr wedi ei ffeilio mewn perthynas ag ef;

11.2.2.7 wedi cychwyn prosesau gweinyddu o fewn ystyr Atodlen B1;

11.2.2.8 wedi cael derbynnydd, derbynnydd a rheolwr, neu dderbynnydd gweinyddol wedi ei benodi dros ei ymgymeriad neu asedau i gyd neu ran sylweddol ohonynt; neu

11.2.2.9 wedi cynnig neu wedi gwneud unrhyw gyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr yn gyffredinol, (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i drefniant gwirfoddol neu gynllun trefniant cwmni).

11.2.3 yw'r parti arall, fel unigolyn neu fusnes wedi cychwyn unrhyw gyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr, wedi cael deiseb wedi ei chyflwyno ganddo neu gan unrhyw berson arall am fethdaliad, wedi cael gorchymyn methdalu yn ei erbyn, wedi gwneud cais i'r Llys am orchymyn interim o dan adran 253 o Ddeddf Ansolfedd 1986, wedi cyflwyno cynnig am drefniant gwirfoddol i enwebai o dan Adran 256A o Ddeddf Ansolfedd 1986, wedi cael deiseb wedi ei chyflwyno am orchymyn gweinyddu o dan Ran III o Orchymyn Partneriaethau Ansolfent 1994, wedi cael deiseb wedi ei chyflwyno i'w diddymu fel cwmni heb ei gofrestru o dan Rannau IV neu V o Orchymyn Partneriaethau Ansolfent 1994, â derbynnydd interim wedi ei benodi dros ei eiddo o dan adran 286 o Ddeddf Ansolfedd 1986, yn methu â thalu ei ddyledion o fewn ystyr adrannau 267 a 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986, â derbynnydd neu reolwr wedi ei benodi dros unrhyw un o'i asedau, â derbynnydd wedi ei benodi o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn marw neu oherwydd unrhyw salwch (gan gynnwys anhwylder neu afiechyd meddwl), damwain neu anaf neu unrhyw achos arall o gwbl, yn methu, am gyfnod olynol o un mis neu am gyfnod cyfunol o un mis mewn unrhyw gyfnod olynol o chwe mis, i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn; neu

11.2.4 oes gan y parti arall unrhyw broses atafael, gweithredu neu broses arall yn erbyn neu wedi ei orfodi ar unrhyw ran o'i eiddo; neu

11.2.5 yw'r parti arall yn peidio â masnachu neu'n bygwth peidio â masnachu.

11.3 At ddibenion **cymal 11.2** ystyrir bod modd datrys toramod os yw'r parti sy'n torri'r amod yn gallu cydymffurfio â'r darpariaethau o dan sylw ym mhob agwedd ac eithrio o ran amser cyflawni (ar yr amod nad yw amser y cyflawniad yn hanfodol bwysig).

11.4 Ni fydd yr hawliau i derfynu'r Cytundeb hwn y mae'r cymal hwn yn eu caniatáu yn cyfaddawdu unrhyw hawl neu rwymedig arall i'r naill barti na'r llall mewn perthynas â'r toramod o dan sylw (os oes un) neu unrhyw doramod arall.

11.5 Wrth derfynu'r Cytundeb hwn am unrhyw reswm, yn amodol ar y darpariaethau eraill a ddarperir trwy'r Cytundeb hwn ac i unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sydd wedi cronni

cyn ei derfynu, ni fydd gan y naill barti na'r llall unrhyw rwymedigaeth bellach i'r llall o dan y Cytundeb hwn.

11.6 Bydd modd gorfodi darpariaethau'r Cytundeb hwn sydd, yn benodol neu'n ymhlyg, yn dod i rym ar ôl ei derfynu, o hyd, er gwaethaf y terfyniad.

12. **RHEOLI NEWID**

12.1 Gall y Cwsmer ofyn, neu gall y Cyflenwr gynnig newidiadau i gwmpas y Cytundeb hwn yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Newid.

12.2 Dim ond Gorchmynion Newid sy'n cael eu hawdurdodi yn ysgrifenedig gan Gynrychiolydd Contract y parti sy'n ei gyhoeddi fydd yn cael unrhyw effaith.

12.3 Bydd y Cwsmer yn cadw ac yn cynnal cronfa ddata rheoli newid, a fydd yn cynnwys cofnodion manwl o'r holl Orchmynion Newid a'u statws cyfredol.

13. **DIOGELU DATA**

13.1 Mae'r cymal hwn yn pennu'r fframwaith ar gyfer rhannu data personol rhwng y partïon fel rheolwyr. Mae pob parti yn cydnabod bod un parti (y cyfeirir ato yn y cymal hwn fel y **Datgelwr Data**) yn datgelu'r Data Personol a Rennir a gesglir gan y Datgelwr Data at y Dibenion Cymeradwy yn rheolaidd.

13.2 Bydd y ddau barti yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau a orfodir ar reolwr o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, ac, os na chaiff ei ddatrys cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael hysbysiad gan y parti arall am unrhyw doramod materol o ran y Ddeddfwriaeth Diogelu Data o du un parti, yn rhoi sail i'r parti arall derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith.

13.3 Bydd y naill barti a'r llall:

13.3.1 yn sicrhau bod ganddo'r holl hysbysiadau a chaniatadau mewn grym i ganiatáu ar gyfer trosglwyddo'r Data Personol a Rennir i'r Derbynwyr a Ganiateir at y Dibenion Cymeradwy;

13.3.2 darparu gwybodaeth gyflawn ar gyfer unrhyw destun data y gall ei ddata personol gael ei brosesu ar ei gyfer o dan y cytundeb hwn o ran natur gwaith prosesu o'r fath. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno hysbysiad, adeg terfynu'r cytundeb hwn, y gellir cadw data personol sy'n ymwneud â nhw, neu, os yw hynny'n briodol, y gellir ei drosglwyddo i un neu ragor o'r Derbynwyr a Ganiateir, eu holynwyr a'u cynrychiolwyr;

13.3.3 yn prosesu'r Data Personol a Rennir at y Dibenion a Gytunwyd yn unig;

13.3.4 yn ymatal rhag datgelu neu ganiatáu mynediad at y Data Personol a rennir i neb heblaw am y Derbynwyr a Ganiateir;

13.3.5 sicrhau bod yr holl Dderbynwyr a Ganiateir yn destun rhwymedigaethau contractiol ysgrifenedig sy'n ymwneud â Data Personol a Rennir (gan gynnwys rhwymedigaethau cyfrinachedd) nad ydynt yn llai beichus na'r rhai a bennir trwy'r cytundeb hwn;

13.3.6 yn sicrhau fod ganddo fesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith, sydd wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y parti arall, i amddiffyn rhag prosesu data heb awdurdod neu yn anghyfreithlon, a rhag colledion damweiniol, difa neu ddifrod i ddata personol.

13.3.7 yn ymatal rhag trosglwyddo unrhyw ddata personol sy'n dod i law gan Ddatgelwr y Data y tu hwnt i AEE oni bai bod y trosglwyddwr:

13.3.8 yn cydymffurfio â darpariaethau Erthyglau 26 o'r GDPR (os yw'r trydydd parti yn gyd-reolwr); ac

13.3.9 yn sicrhau bod (i) y trosglwyddiad i wlad y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ei chymeradwyo fel un sy'n darparu amddiffyniad digonol yn unol ag Erthygl 45 o'r GDPR; neu (ii) yna fesurau diogelu priodol mewn grym yn unol ag Erthygl 46 o'r GDPR; neu (iii) rheolau corfforaethol Rhwymedigol mewn grym neu (iv) un o'r rhanddirymiadau ar gyfer sefyllfaoedd penodol yn Erthygl 49 o'r GDPR yn berthnasol i'r trosglwyddiad.

13.4 Bydd y naill barti yn helpu'r llall i gydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Yn benodol, bydd y naill barti:

13.4.1 yn ymgynghori â'r llall ynghylch unrhyw hysbysiad a roddir i wrthrychau data mewn perthynas â'r Data Personol a Rennir;

13.4.2 yn hysbysu'r llall am dderbyn unrhyw ddata trwy gais i gyrchu data gan wrthrych y data;

13.4.3 yn darparu cymorth rhesymol ar gyfer y llall wrth gydymffurfio ag unrhyw gais am gyrchu data gan wrthrych y data;

13.4.4 ymatal rhag datgelu neu ryddhau unrhyw Ddata Personol a Rennir mewn ymateb i gais i gyrchu data gan wrthrych y data heb ymgynghori â'r llall lle bynnag y bo modd.

13.4.5 cynorthwyo'r llall, ar gost y llall, i ymateb i unrhyw gais gan wrthrych data ac wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch hysbysiadau am dorri rheolau data personol, asesiadau o effaith diogelu data ac ymgynghoriadau ag awdurdodau goruchwyliol neu reoleiddwyr;

13.4.6 hysbysu'r llall heb oedi diangen ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw dor-amod o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

13.4.7 dan gyfarwyddyd ysgrifenedig Datgelwr y Data, yn dileu neu'n dychwelyd Data Personol a Rennir a chopïau ohono i Ddatgelwr y Data wrth derfynu'r cytundeb hwn, oni bai bod y gyfraith yn mynnu bod y data personol yn cael ei storio;

13.4.8 defnyddio technoleg addas i brosesu Data Personol a Rennir er mwyn sicrhau nad oes diffyg cywirdeb yn deillio o drosglwyddo data personol;

13.4.9 cadw cofnodion a gwybodaeth cyflawn a chywir er mwyn dangos ei gydymffurfiaeth â'r cymal 13 yma, ac er mwyn caniatáu ar gyfer archwiliadau gan y parti arall neu gan archwiliwr dynodedig y parti arall; ac

13.4.10 yn darparu manylion cyswllt o leiaf un cyflogai fel pwynt cysylltu a rheolwr cyfrifol am unrhyw faterion sy'n codi o Ddeddfwriaeth Diogelu Data y DU, gan gynnwys hyfforddi staff perthnasol ar y cyd, y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd unrhyw dor-ddiogelwch data, ac adolygu cydymffurfiaeth y partïon â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rheolaidd.

13.5 Bydd y naill barti a'r llall yn indemnio'r llall yn erbyn pob rhwymedigaeth, cost, iawndal a cholledion (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, unrhyw golledion uniongyrchol neu ganlyniadol, colli elw, colli enw da ac unrhyw log, dirwyon a chostau eraill (a gyfrifir ar sail indemniad llawn) ac unrhyw gostau a threuliau proffesiynol [rhesymol] eraill y mae'r parti dan indemniad yn eu goddef neu'n eu tynnu yn rhinwedd eu cysylltiad â'r tor-Ddeddfwriaeth Diogelu Data gan y parti sy'n indemnio, ei weithwyr neu ei asiantau, ar yr amod bod y parti sydd wedi ei indemnio'n rhoi rhybudd amserol i'r sawl sy'n indemnio o hawliad o'r fath, gwybodaeth gyflawn am yr amgylchiadau a arweiniodd atynt, cymorth rhesymol i ddelio â'r hawliad, a'r awdurdod llwyr i'w reoli, ei amddiffyn a/neu ei setlo.

## 14. ATEBOLRWYDD

14.1 Ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn cyfyngu ar nac yn eithrio atebolrwydd y Cyflenwr dros:

14.1.1 farwolaeth neu anaf personol a achoswyd trwy ei esgeulustra;

14.1.2 twyll neu gamliwio trwy dwyll; neu

14.1.3 unrhyw atebolrwydd arall na all y gyfraith berthnasol gyfyngu arno na'i hepgor.

14.2 Yn amodol ar gymal 14.1, ni fydd y Cyflenwr yn atebol i'r Cwsmer, boed trwy gontract, camwedd (gan gynnwys esgeulustra), am dorri dyletswyddau statudol, sy'n codi o dan neu mewn perthynas â'r cytundeb hwn ar gyfer:

14.2.1 colli elw;

14.2.2 colli gwerthiannau neu gontractau;

14.2.3 colli cytundebau neu gontractau;

14.2.4 colli cynilion disgwyliedig;

14.2.5 colli neu niweidio ewyllys da;

14.2.6 colli neu lygru meddalwedd, data neu wybodaeth; ac

14.2.7 unrhyw golledion anuniongyrchol neu oblygiadol.

14.3 Yn amodol ar gymal 14.1, bydd cyfanswm yr atebolrwydd i'r Cwsmer, boed trwy gontract, camwedd (gan gynnwys esgeulustra), am dor-ddyletswydd statudol, neu fel arall, sy'n codi o dan neu mewn cysylltiad â'r cytundeb hwn yn gyfyngedig i **[I'W YCHWANEGU]**. ].

15. **DEDDF LLWGRWOBRWYO 2010**

15.1 Byd y Cyflenwr yn, ac yn sicrhau bod ei swyddogion, cyflogeion, asiantau, isgontractwyr ac unrhyw berson arall sy'n cyflawni gwasanaethau ar ei gyfer neu ar ei ran mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, yn cydymffurfio â'r holl Gyfreithiau Atal Llwgrwobrwyo.

16. **ATAL CAETHWASIAETH**

Ni fydd y Cyflenwr, a bydd yn sicrhau na fydd unrhyw berson arall sy'n cyflawni gwasanaethau neu'n cyflenwi nwyddau ar ei gyfer neu ar ei ran mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn, yn cymryd rhan mewn unrhyw arferion neu'n hepgor a gwneud dim sydd gyfystyr â chaethwasiaeth fodern fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern ("**Arferion Caethwasiaeth Fodern**").

17. **TRETH**

17.1 Y Cyflenwr sy'n gyfrifol am wneud didyniadau PAYE a didyniadau eraill o'r gydnabyddiaeth ariannol y mae'n ei dalu i'r Personél, a bydd yn gwneud cyfrif am y rhain i'r awdurdodau perthnasol.

17.2 Os oes angen, bydd y Cyflenwr yn ei gofrestru ei hun at ddibenion TAW, ac os felly, bydd yn cyflenwi'r Cwsmer â thystiolaeth foddhaol o gofrestru ar gais y Cwsmer.

18. **HYSBYSIADAU**

18.1 Rhaid i unrhyw hawliad, hysbysiad neu ohebiaeth fod yn ysgrifenedig, a gellir eu cyflwyno â llaw neu eu hanfon trwy'r post dosbarth cyntaf, ac ystyrir ei fod wedi ei gyflwyno'n briodol:

18.1.1 os yw'n cael ei gyflwyno â llaw, o'i adael yn y cyfeiriad cyflwyno priodol;

18.1.2 os caiff gyflwyno neu ei anfon trwy'r post rhagdaledig dosbarth cyntaf, 48 awr ar ôl ei bostio (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul a gwyliau cyhoeddus)

os yw'n cyrraedd ar ôl 4.00pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, ystyrir ei fod wedi ei gyflwyno am 9.00am ar y Diwrnod Busnes nesaf (ar sail amser lleol cyfeiriad y derbynnydd).

18.2 Rhaid cyflwyno unrhyw hawliad, hysbysiad neu ohebiaeth yn ysgrifenedig a rhaid ei gyfeirio at y derbynnydd yn ei swyddfa gofrestredig neu ei gyfeiriad a bennir yn y Cytundeb hwn (neu'r fath gyfeiriad arall ag y bydd yn ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd) a chaiff ei farcio er sylw Ysgrifennydd y Cwmni.

19. **DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI) 1999**

Nid yw'r partïon yn y Cytundeb hwn yn bwriadu i unrhyw delerau ohoni gael eu gorfodi yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 gan unrhyw berson nad yw'n barti iddo.

20. **ASEINIO AC IS-GONTRACTIO**

20.1 Bydd gan y Cyflenwr yr hawl i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn trwy unrhyw asiantau neu isgontractwyr.

20.2 Ac eithrio yn unol â darpariaethau cymal 20.1, mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Cyflenwr, ac ni chaiff y Cyflenwr, heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cwsmer ymlaen llaw, aseinio, morgeisi, codi arwystl (ac eithrio ar ffurf arwystl cyfnewidiol) neu waredu unrhyw hawliau odano, nac is-gontractio neu ddirprwyo unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn fel arall.

20.3 Ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn creu, nac yn honni ei fod yn creu, partneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y partïon.

21. **Y CYTUNDEB CYFLAWN**

Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl delerau y mae'r partïon wedi eu cymeradwyo mewn perthynas â'r trafodion y mae'r Cytundeb hwn yn darparu ar eu cyfer, ac nid yw'r naill barti na'r llall wedi cael eu cymell i gymryd rhan yn y Cytundeb hwn gan ddatganiad neu addewid nad yw'n ei gynnwys. Ni fydd hyn yn hepgor unrhyw atebolrwydd y byddai gan un parti i barti arall mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad y mae'r parti hwnnw'n ei wneud trwy dwyll cyn dyddiad y Cytundeb hwn.

22. **ANNILYSU**

22.1 Os bydd unrhyw lys, tribiwnlys neu gorff gweinyddol ag awdurdodaeth fedrus yn barnu fod unrhyw ddarpariaeth o dan y Cytundeb hwn yn anghyfreithlon yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol, yn annilys, neu nad oes modd ei orfodi mewn unrhyw agwedd:

22.1.1 ni fydd hyn yn effeithio ar nac yn atal unrhyw ddarpariaeth arall o'r Cytundeb hwn, a fydd yn aros mewn grym ag effaith lawn, ac eithrio lle bo'n amddifadu un o'r partïon rhag rhan sylweddol o'r budd y bwriedir ei dynnu o'r Cytundeb hwn heb ddarparu unrhyw fudd cyfatebol;

22.1.2 bydd y partïon yn diwygio ac, os oes angen, yn newyddu'r Cytundeb hwn yn ddidwyll fel ei fod yn adlewyrchu'r ysbryd a'r bwriad y tu ôl i'r ddarpariaeth anghyfreithlon, annilys neu anorfodadwy hwnnw gymaint â phosibl, a hynny fel bod y cymal diwygiedig yn cydymffurfio â chyfreithiau Cymru a Lloegr; ac

22.1.3 os na all y partïon gytuno ar delerau unrhyw ddiwygiad neu newyddiad cyn pen 6 mis ar ôl y dyddiad pan dyfarnwyd bod cymal yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol, yna mae'r partïon yn cytuno i gyfeirio telerau'r diwygiad neu'r newyddiad nôl at y llys, tribiwnlys neu gorff gweinyddol a ganfu bod y ddarpariaeth yn anghyfreithlon, yn annilys

neu'n anorfodadwy yn wreiddiol. Mae'r partïon yn cytuno y bydd penderfyniad y llys, y tribiwnlys neu'r corff gweinyddol fydd yn derfynol ac yn rhwymol yn hyn o beth.

23. **ILDIO**

23.1 Ni fydd unrhyw feithiant neu oedi gan y naill barti neu'r llall wrth ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi o dan y Cytundeb hwn yn amharu ar unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi o'r fath, nac yn gweithredu i'w ildio o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fydd ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi yn unigol neu'n rhannol gan y naill barti neu'r llall o dan y Cytundeb hwn o dan unrhyw amgylchiadau yn nacáu unrhyw ymarfer arall neu bellach ohono, nac ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.

23.2 Mae'r hawliau, y pwerau a'r rhwymedïau a ddarperir yn y Cytundeb hwn yn gronnol ac nid ydynt yn nacáu unrhyw hawliau, pwerau a rhwymedïau y mae'r gyfraith yn eu darparu.

23.3 Ac eithrio lle darperir yn benodol ar gyfer hynny yn y Cytundeb hwn, ni chaiff unrhyw ildiad am dor-amod, neu ddiffyg o dan unrhyw un o delerau'r Cytundeb hwn eu hystyried i ildio unrhyw dor-amod neu ddiffyg wedyn, ac ni fydd yn effeithio ar delerau eraill y Cytundeb hwn mewn unrhyw ffordd,

24. **AMRYWIO**

Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn yn ddilys oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan y naill barti a'r llall yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Newid.

25. **GOROESI**

Ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn, sut bynnag y bo hynny'n digwydd, bydd cymalau 6, 7, 11, 13, 14, 15, 25 a 26 yn goroesi'r terfyniad hwnnw.

26. **Y GYFRAITH LYWODRAETHOL**

Caiff ffurfiant, adeiladwaith, perfformiad, dilysrwydd a phob agwedd bynnag o'r Cytundeb hwn ac unrhyw rwymedigaethau anghontractiol sy'n deillio ohono, neu mewn perthynas ag ef, eu llywodraethu gan gyfreithiau Cymru a Lloegr fel y maent yn gweithredu yng Nghymru, ac mae'r partïon yn cytuno trwy hyn i gyflwyno i awdurdodaeth lwyr Llysoedd Cymru a Lloegr.

Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel cytundeb, ac fe'i cyflwynwyd ar y dyddiad a bennwyd ar ddechrau'r Cytundeb.

# ATODLEN 1

## Y Gwasanaethau a'r Lefelau Gwasanaeth

1.1 Darllen Mesuryddion

Erbyn y degfed Ddiwrnod Busnes yn dilyn y 1af o Chwefror bob blwyddyn y mae'r Cytundeb hwn mewn grym, bydd y Cwsmer yn e-bostio rhestr o'r mesuryddion ar y Safleoedd Cymwys i'w darllen i Flwch Post y Cyflenwr gan ddefnyddio'r "Amserlen o Amledd Darlleniadau Blynyddol" sydd ynghlwm yn Atodlen 2. Bydd yr Amserlen o Amledd Darlleniadau Blynyddol yn cynnwys: cyfeirnod y cwsmer, Cyfeirnod y Mesurydd, amledd y darlleniadau sydd ei angen (i'w gytuno rhwng y Partïon ymlaen llaw) ac a oes yna ofynion arbennig o ran mynediad. Os oes angen gwneud newidiadau ad-hoc i'r Amserlen o Amledd Darlleniadau Blynyddol, rhaid cael cydsyniad y Cyflenwr i'r newidiadau yna.

Os oes angen darllen y mesurydd eto, bydd y Cwsmer yn e-bostio "Ffurflen Gais am Ddarllen Mesurydd", sydd ynghlwm yn Atodiad 3, i Flwch Post y Cyflenwr. Bydd y Cyflenwr yn cysylltu â'r Cwsmer o dan sylw cyn pen 2 Ddiwrnod Busnes ar ôl i'r Ffurflen Gais am Ddarllen Mesurydd ddod i law er mwyn trefnu ymweliad (os oes angen) ac yn e-bostio'r Blwch Post y Cwsmer i rannu diweddariad ar gynnydd a'r canlyniad.

1.2 Amserlenni Darllen Mesuryddion

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod mesuryddion pob Safle Cymwys yn cael eu darllen ar y Diwrnod Busnes ym mhob mis a bennir yn yr Amserlen o Amledd Darlleniadau Blynyddol.

Bydd y Cwsmer yn diweddaru'r Cyflenwr pan fo angen. Pan fo angen newid dyddiad a/neu amledd y darlleniadau, rhaid e-bostio'r newid hwn i Flwch Post y Cyflenwr cyn yr 20fed ddiwrnod o'r mis.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod mesuryddion Safleoedd Cymwys, y mae angen eu darllen eto am ba reswm bynnag, yn cael eu darllen a'u e-bostio nôl i Flwch Post y Cwsmer cyn pen pymtheg (15) Diwrnod Busnes ar ôl i'r cais ddod i law gan y Cwsmer.

# ATODLEN 2

### Ffioedd – i'w hadolygu yn flynyddol

**Rhestr Ffioedd 2024/25**

| Gwasanaeth | Sail y Ffi | Y Ffi |
|---|---|---|
| Darlleniad o'r Mesurydd | Fesul Darlleniad o'r Mesurydd | £12.03 |

Mae'r ffi yn cynnwys yr holl gostau a ddyrennir yn briodol i ddarllen mesuryddion, a chânt eu haddasu yn flynyddol i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn sylfaen costau DCC.

# ATODLEN 3

## Rheoli Newid

1. Yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, gall y Cyflenwr a'r Cwsmer ofyn am neu gynnig diwygiad i'r Cytundeb a/neu'r Lefelau Gwasanaeth trwy ddarparu manylion pob cais am newid ar gyfer y llall (gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i Ffioedd) i'r parti arall eu hystyried.

2. At ddibenion yr **Atodlen 3** yma, ystyr Cyfraith fydd pob cyfraith a deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i'r Gwasanaethau a/neu'r allbwn o'r Gwasanaethau ynghyd â phob cyfraith a deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Cyflenwr.

3. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Cytundeb hwn, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, y Lefelau Gwasanaeth, neu unrhyw ran ohonynt, gael cydsyniad Cyflenwr a'r Cwsmer cyn dechrau unrhyw newid o'r fath. Hyd nes y gwneir newid i'r Cytundeb hwn yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Newid, oni cytunir fel arall yn ysgrifenedig, rhaid i'r partïon barhau i gyflawni'r Cytundeb hwn gan gydymffurfio â'i delerau nes i newid o'r fath ddod i rym.

4. Caiff unrhyw waith y mae'r Cyflenwr a'i gyflogeion yn eu cyflawni sydd heb gael ei awdurdodi ymlaen llaw trwy newid i'r Cytundeb hwn, ac sydd heb gael ei gymeradwyo fel arall yn unol â darpariaethau'r **Atodlen 3** yma, eu cyflawni'n llwyr ar gost ac atebolrwydd y Cyflenwr.

5. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae gan y Cyflenwr ddisgresiwn llwyr i dderbyn neu wrthod unrhyw gais am newid oni bai bod angen cyflawni newid o'r fath o ganlyniad i newid yn y Gyfraith sy'n effeithio ar sut mae'r Cyflenwr yn cyflawni'r Gwasanaethau, ac os felly, ni fydd y Cyflenwr yn ymatal neu'n oedi cyn cydsynio i newid arfaethedig o'r fath yn afresymol.

6. Caiff newidiadau cymeradwy i'r Cytundeb a/neu'r Lefelau Gwasanaeth eu cofnodi gan y Cwsmer, a bydd y partïon yn gweithredu Gorchymyn Newid ar y ffurf a bennir isod yn **Atodiad 1**.

7. Caiff y Ffioedd ar gyfer unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith dim ond ar ôl i'r partïon gytuno i'r Gorchymyn Newid a'i roi ar waith yn unol â darpariaethau'r Atodlen 3 yma.

8. Heblaw lle mae cyflawni Gorchymyn Newid yn addasu hynny'n benodol, bydd holl amodau a thelerau eraill y Cytundeb hwn yn aros mewn grym ac effaith lawn.

**Atodiad 1**

**Templed Gorchymyn Newid**

---

**Dyddiad**:

**DŴR CYMRU CYFYNGEDIG**

**[ADWERTHWR TRYDYDD PARTI]**

---

**Rhif y Gorchymyn Newid [Rhif]**

---

Cytundeb Cyflenwi Gwasanaethau Darllen Mesurydd

Gwneir y GORCHYMYN NEWID HWN ac mae’n effeithiol o ………….. ddydd …………………… [2024] (**“Y Dyddiad Effeithiol”**)

**RHWNG**

**DŴR CYMRU CYFYNGEDIG** (**“y Cyflenwr”**); a

**[ADWERTHWR TRYDYDD PARTI] (“y Cwsmer”)**

**CRONICLIADAU:**

Ategir y diwygiad hwn i’r cytundeb gan gytundeb dyddiedig [Dyddiad y Cytundeb Gwreiddiol dd/mm/bbbb] rhwng y Cwsmer a’r Cyflenwr (y Cytundeb Gwreiddiol) fel y caiff ei ddiwygio o bryd i’w gilydd yn unol ag **Atodlen 3** o’r Cytundeb Gwreiddiol.

Trwy hyn, mae’r partïon yn cytuno fel a ganlyn:-

[I’W LLENWI YM MHOB ACHOS]

Ni fydd y diwygiad hwn i’r cytundeb yn amrywio nac yn diwygio unrhyw delerau eraill o’r Cytundeb Gwreiddiol nac unrhyw amrywiadau eraill iddo, heblaw fel a bennir yma, a bydd telerau o’r fath yn aros mewn grym ag effaith lwyr ar gyfer gweddill cyfnod y Cytundeb Gwreiddiol.

**HYN SYDD I DYSTIO BOD** y Partïon wedi peri i’r Gorchymyn Newid yma gael ei gyflawni gan eu cynrychiolwyr priodol

Llofnodwyd gan…………………………………………….

Enw ……………………………………………………

Swydd ……………………………………………………

Ar gyfer ac ar ran

**DŴR CYMRU CYFYNGEDIG**

Llofnodwyd gan…………………………………………….

Enw ……………………………………………………

Swydd ……………………………………………………

Ar gyfer ac ar ran

**[ADWERTHWR TRYDYDD PARTI]**

**Atodiad 2**

Amserlen o Amledd Darlleniadau Blynyddol

| Enw'r Cwsmer | Cyfeiriad | Gofynion arbennig o ran mynediad | Amledd | A oes angen Darlleniad Archwilio? |
|---|---|---|---|---|
| Busnes A | Uned A, Stryd Chwith, Tref COD POST | | Misol: | Oes |
| Busnes A | Uned A, Stryd Chwith, Tref COD POST | | Misol: | Nac oes |

**Atodiad 3**

Ffurflen Gais am Ddarllen Mesurydd

Dŵr Cymru
Welsh Water

## Request for Water Meter Read to be carried out by Retail Services

### To Retail Services

..............................................................

..............................................................

..............................................................

..............................................................

The purpose of this form is to capture the details required in order for a water meter to be read outside of its normal read cycle.

The form should reach us a minimum of 5 working days before the read is required.

The form is divided into sections as follows:

| Number | Section |
|---|---|
| 1. | Retailer details |
| 2. | Premises details |
| 3. | Meter details |
| 4. | Declaration |

All sections are mandatory.

If a piece of information does not exist or is not applicable in the circumstances, the Retailer must note this and, where relevant, provide a reason why it is not applicable.

Dŵr Cymru
Welsh Water

| 1 Retailer details |
| --- |
| Retailer Name<br>Retailer ID<br>Retailers own reference<br>Contact Name<br>Contact number<br>Contact e-mail |

| 2 Premise details |
| --- |
| SPID<br>VOA BA Reference, if available[1]<br>UPRN, if available[2]<br>Address of premises<br>Building number<br>Building name<br>Address line 1<br>Address line 2<br>Address line 3<br>Town<br>Postcode |
| 1 If not available please provide a reason why<br>2 If not available please provide a reason why |

## 3 Meter details

### 3.1 Existing Meter Details

Please provide details of the existing meter (mandatory except for meter installation requests)

Meter serial number

Meter manufacturer

Meter size[3]

Meter location (GIS X)

Meter location (GIS Y)

Meter location description

[3] Nominal size of the meter in mm e.g. for a DN15 meter the Physical Meter Size is 15

Reason for additional read

Indicate a preferred date of meter reading

Reading date ..Reading..

Unable to read reason

## 4 Declaration

By submitting this form I accept the standard terms for metering. If the activity is for a standard meter in standard circumstances then it will take place without a quote being issued.

I hereby acknowledge and declare that the information provided in this form is correct to the best of my knowledge and up to date at the date of submission

**Your details**

Signature

Date(dd/mm/yy)

Full Name (in capitals)

Role in the company or job title

Llofnodwyd gan…………………………………………….

Enw ………………………………………………………

Swydd ………………………………………………………

Ar gyfer ac ar ran

**ADRAN GWASANAETHAU ADWERTHU DŴR CYMRU**

Llofnodwyd gan…………………………………………….

Enw ………………………………………………………

Swydd ………………………………………………………

Ar gyfer ac ar ran

**[ADWERTHWR TRYDYDD PARTI]**